***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 No. 3439

# Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1999

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 1999 a byddant yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 1999.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**).

### Diwygio Rheoliadau 1992

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2000, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 4(1) o Atodlen 1, yn lle'r fformwla "(A × £39.50) + (B × 0.00087)" y rhoddir y fformwla "(A × £39.90) + (B × 0.00078)";

(b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.999" y rhoddir "1.005";

(c) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 y rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

17 Rhagfyr 1999

(**1**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003 a 1998/2962.
(**2**) 1998 p.38.